**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL A GYNHALIWYD**
**AR DDYDD IAU 18/01/2018**
**YN LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol a dymunwyd blwyddyn newydd dda i bawb.
2. **YN BRESENNOL**
Y Gyngh. Clare Hughes (Cadeirydd); Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones a'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans
3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:** Ymddiheurodd Y Cyngh. John Jones, Y Cyngh. Non Jones a'r Cyngh. Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.
4. **MATERION YN YWNEUD Â'R HEDDLU**
Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans, mai tawel y bu mis Rhagfyr 2017. Roedd materion gwrthgymdeithasol wedi codi i gynnwys galwadau ffôn niwsans; byrgleriaeth (Heol Lisburne) & lladrad (cynwysyddion metel llaeth alwminiwm). Gresynwyd y parcio cerbydau ar ddwy ochr y ffordd, bron yn barhaus o flaen Neuadd Pantyfedwen. Penderfynwyd anfon llythyr at yr Heddlu a Chyngor Sir Ceredigion i'w hatgofio o'r consyrn.
Dywedwyd y gellid parcio carafan ar ochr y ffordd cyn belled nad oedd yn rhwystr.
5. **DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.
6. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 18FED Tachwedd 2017**
Cytunwyd ac arwyddwyd Cofnodion Cyfarfod y 18fed o Dachwedd 2017, fel cofnod cywir gan y Cadeirydd, y Gyngh. Clare Hughes.
7. **MATERION YN CODI**
   **7.1 Praesept 2018-19**
   Trafododd yr Aelodau Gynigion ar gyfer y Gyllideb (Atodiad 1).
   Ar ôl grym drafodaeth **PENDERFYNWYD** gan godi llaw, i gynyddu'r Praesept gan 1% (4 DROS; 3 YN ERBYN) gan wneud £7,070 + £70.70 (1%) = £7,140.70. Cynigiwyd gan y Cyngh. Gareth Owen ac eiliwyd gan y Gyngh. Laura Jones. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd, is na chyfradd chwyddiant (a ragwelir fel 3% ar gyfer 2018).

   **7.2 Glan-yr-Afon & thocio coeden** ger y bont ger Maesydderwen: Trafodwyd y llwybr ar hyd glan yr afon. Cyfeiriwyd at y gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir ynghynt yn y flwyddyn mewn perthynas â'r darn o dir a elwir yn Glan yr Afon. Nid yw'r ardal wedi ei gofrestu gan y Gofrestrfa Tir. Y mae'r Cyngor Cymuned yn talu am 3 toriad y mis @ £40 y toriad. Cytunwyd i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ac i'w hysbysu bod y llwybr cerdded cyhoeddus wedi'i gau ac a ellid gwneud trefniadau i'w ailagor. *Disgwylir ymateb.*

   **7.3 Cais am: Bont i Gerddwyr ochr yn ochr â phont hanesyddol Pontrhydfendigaid**
   Bu i'r Gyngh. Clare Hughes drefnu Deiseb i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal hon a gofynnodd am bont ar gyfer cerddwyr ger y bont hanesyddol Pontrhydfendigaid. Anfonwyd y Ddeiseb, a oedd wedi cynnwys 200 o enwau, at Gyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd yn yr ymateb gan GSC fod peirianwyr ar hyn o bryd yn asesu amodau'r bont ac yn argymell atebion priodol. Bydd CSC yn diweddaru'r Cyngor Cymuned ar ôl i'r broses ddod i ben.

Gofynnwyd i'r Cyngor Sir am gyfarfod safle. Dywedodd Mr Igho Emeseh, Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd CSC y byddai ar gael ar gyfer cyfarfod safle o'r 18 Ionawr 2018 ymlaen. **PENDERFYNWYD;** Y Gynghorydd Clare Hughes i gysylltu â Mr Emeseh i drefnu cyfarfod safle. Y Cyng. Wil Lewis a'r Cynghorydd Alun Price Jones i fynychu'r cyfarfod.

7.4 **Grant Gwyrdd, CS Ceredigion:** Dim Datblygiadau.

7.5 **Creu gwefan ar gyfer y Pentref:** Adroddodd y Gyngh. Laura Jones y byddai gwefan y Cyngor Cymuned yn "fyw" yn fuan. Bydd Cofnodion / Agendâu cyfarfodydd misol yn cael eu postio i'r safle ar y we bob mis. Bydd manylion cyswllt Aelodau a'r Clerc ar gael yn ogystal â gwybodaeth ariannol, map yr ardal a dogfennau eraill ee Cod Ymddygiad.
Argymhellodd Archwiliad Grant Thornton Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17 ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned gael gwefan mewn lle yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

7.6 **Cŵn yn Baeddu-** parha i fod yn broblem o fewn y Pentref. Cytunwyd i brynu chwistrellau lliw ar-lein.

7.7 **Soniwyd am ŵr,** a aned ym Montrhydfendigaid ac ymfudodd i Awstralia ac ynghlwm â'r Rhyfel Byd Cyntaf sef Richard David Davies, Rock House, Pontrhydfendigaid - ymfudodd ei deulu i Freemantle, Awstralia - bu farw ym Mrwydr Fromelles ar y 19eg o Orffennaf 1916. Gwasanaethodd o fewn yr Adran 53ain Awstralia. Cytunwyd i geisio darganfod petai ei enw'n ymddangos ar y Gofgolofn Freemantle neu Ffrainc; pe na bai, gellid ei gynnwys ar y Gofgolofn ym Mhontrhydfendigaid. **Y Ddynes ar y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid**: cytunwyd i ddarganfod rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r Cerflun y Foneddiges ar y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid yn ystod y cyfarfod blaenorol. Dywedwyd bod angen glanhau'r Gofgolofn - angen 3 dyfynbris.

7.8 **Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru:** Dewisir 7 prosiect i nodi Pen-blwydd y Tywysog Cymru yn 70 oed; cynhwysir Ystrad Fflur ar y rhestr i'w hystyried.

## 8. GOHEBIAETH

8.1 **Ymateb gan Mr H. Evans, Fferyllydd, Tregaron** ynglŷn â chais y Cyngor Cymuned yn gofyn petai ei Fferyllfa yn gallu bod ar agor dros gyfnod oriau'r Syrgeri y Meddygon yn Nhregaron. Diolchodd Mr Evans i'r Cyngor Cymuned am yr ymateb cadarnhaol. Y mae eisoes wedi crybwyll i'r feddygfa a fyddai'n bosibl ail-ystyried oriau ymweld yn swyddogol â chleifion ond maent yn rhwym i'r ffaith eu bod ar gael hyd nes 6.30pm yn ôl eu cytundeb hwy â'r Bwrdd Iechyd.

8.2 **Ben Lake AS:** llythyr yn cyflwyno ei hun fel Aelod Seneddol Ceredigion a diolch i'r Cynghorwyr Cymuned am y gwaith y maent yn eu cyflawni ar ran y Gymuned. Gofynnwyd a ellid arddangos y posteri ar hysbysfyrddau y plwyf- cytunwyd i wneud hynny.

8.3 **Adolygiad o'r Sector Cynghorau Lleol:** Un Llais Cymru yn gofyn am gymorth i gwblhau arolwg ar-lein. Bydd y gwybodaeth o fudd i Un Llais Cymru, corff cynrychioliadol Cynghorau Tref a Chymuned i gynrychioli'r sector ar sail casgliad cadarn o wybodaeth.

8.4 **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Diweddariad – Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol – dyma eich cyfle chi i newid dyfodol ein GIG!"**
Yn ystod yr haf diwethaf cynhaliodd GIG Cymru Sgwrs Fawr â staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, partneriaid a'r cyhoedd, sef y Cyfnod Darganfod (gwrando ac ymgysylltu) y rhaglen Gwasanaethau Clinigol Trawsnewidiol. Dadansoddwyd yr hyn a glywswyd yn annibynnol a'i gyflwyno'n ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a chytunodd i symud i gam dau y rhaglen sef y Cyfnod Dylunio.

Golyga hyn bod grwpiau o staff eisoes yn defnyddio'r adborth hwn i ddatblygu rhestr hir o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymunedol, cynllunio brys a gofal brys a gynlluniwyd yn y dyfodol. Mae angen i'r rhain gael eu profi, eu herio a'u culhau i restr derfynol o opsiynau erbyn diwedd Ionawr fel eu bod yn barod ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn y gwanwyn. Cynhaliwyd Gweithdy Rhanddeiliaid ar 9.1.18 yng Nghaerfyrddin.

**8.5** **Canolfan Hamdden Tregaron**: fel rhan o'u rhaglen i dorri ar wariant, penderfynod CSC gau Canolfan Hamdden Caron. Mae bellach dan ofal yr Ymddiriedolwyr a bydd yn ailagor ar ddydd Gwener 9fed Chwefror 2018 am 3.00pm. Estynnwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd i fod yn bresennol.

**8.6** **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**: Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion Cynigion Drafft cynhelir yr arolwg o dan Adran 29 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cwblhau rhan gyntaf eu harolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion. Mae'r Comisiwn bellach yn cyhoeddi ei Cynigion Drafft. Gwahoddwyd sylwadau yn dechrau ar y 23ain Ionawr 2018 a dod i ben ar 16 Ebrill 2018.

**8.7** **Gohebiaeth gan Mr Bill Messer** yn sôn na fydd yn mynychu cyfarfodydd dyfodol y Cyngor Cymuned ar ôl deng mlynedd ac yn diolch am y croeso a dderbyniodd yn ystod y cyfnod hwn.

**8.8** **Gohebiaeth Arall**: Er Gwybodaeth Yn Unig.

**9. CYLLID**

**9.1** **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli ar hyn o bryd ond ni dderbyniwyd llyfr siec; caiff arian ei dynnu allan o'r prif gyfrif.

**9.2** **Cyflog y Clerc** Hydref 2017 £155.07

**9.3** **Cyllid a Thollau EM** Hydref 2017 £38.76

**9.4** **Cyngor Sir Ceredigion-** £1,026.63: cost yr Etholiad 2018

**9.5** **Costau ynni ar gyfer** goleuo goleuadau stryd rhwng hanner nos a 05.00 ar gais y Cyngor Cymuned am cyfnod 1af Ebrill 2017-31ain Mawrth 2018 £522.22; TAW £104.44.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1** **Mae gorchudd** twll archwilio wedi suddo ger Llidiart Ffair Rhos; i adrodd at sylw CSC.

**11.2** **Adroddwyd bod** 2 ddamwain ddifrifol wedi digwydd ger y Parc Carafanau ar gyrion Tregaron, oherwydd y dŵr yn cronni ar y ffordd;i adrodd at sylw CSC.

**11.3** **Palmant: Penrhiw,** Ffair Rhos ger y Lloches Bws **-** i atgoffa CSC o'r cais.

**11.4** **Cytunwyd i ddarganfod** sawl Ymwelydd Iechyd oedd ar gael ar gyfer Tregaron a Phontrhydfendigiad.

**11.5** **Cytunwyd i lanhau'r** pafin rhwng Rock House a'r Ysgol.

**11.6** **Adroddwyd na chafodd sbwriel** (bagiau du ac ailgylchu) eu casglu gan GSC yng nghyffiniau Ty Gwyn Pontrhydfendigiad - i adrodd at sylw CSC**.**

**11.7** **Cinio Blynyddol: cytunwyd i** gysylltu â'r Red Lion, Bont i ofyn a ellid cynnal y cinio ar 23/24 Chwefror. Ystyrir y fwydlen yn y cyfarfod nesaf.

**11.8** **Yn Rwanda,** yn ôl y Cadeirydd, disgwylir i bobl rhwng 18 a 65 oed ymgymryd â Gwaith Cymunedol am 3 awr bob mis.

***Daeth y Cyfarfod i ben am*** **8.45pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Dydd Iau 15fed o Chwefror 2018 at 7pm**

==================================================

(Arwyddwyd/Dyddiad )